

Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr / Ysbyty Gwynedd /
Gwasanaethau Mamolaeth

Dyddiad yr arolygiad: 30 a 31
Ionawr 2018

Dyddiad cyhoeddi: 2 Mai 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	23
4.	Beth nesaf?	26
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	27
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad ..	28
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	29

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chymesur

Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o'r gwasanaethau mamolaeth o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 30 a 31 Ionawr 2018. Ymwelwyd â'r safle ysbyty a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

Ysbyty Gwynedd

- Ward Llifon
- Yr ward esgor
- Yr uned dan arweiniad bydwragedd

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC (arweiniwyd yr arolygiad gan un ohonynt) a dau arolygydd cymheiriaid clinigol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Roeddem yn hapus fod Ward Llifon, y ward esgor a'r uned dan arweiniad bydwagedd yn darparu gofal diogel ac effeithiol a oedd yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Roedd cleifion yn fodlon ar y gofal roeddent yn ei dderbyn ac yn canmol agwedd broffesiynol, gwrtais a chefnogol y staff.

Roedd staff ar bob gradd yn croesawu'r broses arolygu, ac roeddent yn agored ac yn dryloyw yn eu trafodaethau.

Roedd pwyslais mawr ar hyrwyddo gofal blaengar ac arloesol.

Er inni dynnu sylw'r staff at rai meysydd i'w gwella a fyddai'n gwella'r gwasanaeth da sydd eisoes yn cael ei ddarparu ymhellach, gwelsom hefyd dystiolaeth fod nifer o feysydd lle'r oedd arferion nodedig ar waith.

Ar y cyfan, roedd y gwasanaeth bydwreigiaeth yn Ysbyty Gwynedd yn rhagori o ran ei ymdrechion i gynnig gwasanaeth tebyg i'r math o uned fawr a geir mewn ardal ddinas fewnol.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch
- Roedd yr amgylchedd ar y wardiau yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac roedd yn drefnus
- Roedd trefniadau ar waith i gleifion a'u teuluoedd roi adborth ar eu profiadau
- Gwelsom fod systemau ar waith gyda'r nod o amddiffyn cleifion rhag niwed y gallid ei osgoi, a'u cadw'n ddiogel
- Roedd y staff wedi asesu anghenion y cleifion ac wedi datblygu cynlluniau ysgrifenedig i fodloni'r anghenion hyn
- Roedd trefniadau ar waith i reoli meddyginiaethau'n ddiogel

- Gwelsom arweinyddiaeth a rheolaeth dda gan yr uwch-staff, ac roedd systemau ar waith i fonitro effeithiolrwydd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir
- Roedd y staff yn amlwg yn broffesiynol ac yn wybodus, ac roedd nifer y staff o fewn y timau staff, a'u cymysgedd sgiliau, yn briodol i ddiwallu anghenion y cleifion ar ddiwrnodiau'r arolygiad

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Datblygu pwynt cyswllt ar gyfer teuluoedd sy'n galaru
- Sicrhau bod gan staff fynediad at yr holl wybodaeth berthnasol/sensitif mewn perthynas â'r cleifion o dan eu gofal
- Cofnodi gwiriadau dyddiol
- Mynediad gwell at sganio i famau a chanddynt bryderon ynghylch twf y ffetws

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, gan ddarparu pob math o wasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac ysbyty aciwt ar gyfer poblogaeth o tua 678,000 o bobl ar draws chwe sir y gogledd (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, a Wrecsam).

Mae tri prif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan, ac Ysbyty Maelor yn Wrecsam) ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl, a chanolfannau i dimau cymunedol. Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn cydgysylltu gwaith 109 o bractisau meddygon teulu a gwasanaethau GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng ngogledd Cymru.

Mae'r gwasanaeth mamolaeth yn Ysbyty Gwynedd yn cynnwys cyfres o wyth ystafell esgor, ac mae un o'r rhain yn cynnwys pwll geni sydd wedi'i gysylltu â'r system blymio. Wrth ochr yr ystafelloedd hyn, mae uned dan arweiniad bydwagedd sy'n cynnwys dwy ystafell esgor, ac mae pwll geni sydd wedi'i gysylltu â'r system blymio yn un o'r ystafelloedd hyn hefyd. Ar gyfer y cyfnod ar ôl rhoi genedigaeth, mae gan yr ysbyty ward ôl-enedigol pe bai angen i'r fam aros yn yr ysbyty am gyfnod hwy o amser. Mae uned gofal arbennig i fabanod yn yr ysbyty, sy'n gweithio'n agos gyda'r uned gofal arbennig ganolog i fabanod yn Ysbyty Glan Clwyd.

Yn ystod ein hymweliad, roedd un claf yn yr uned dan arweiniad bydwagedd, ond ni chawsom gyfle i siarad â hi.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Canfuom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch ar y wardiau. Mae hyn oherwydd inni weld y staff yn bod yn dosturiol ac yn gwarchod preifatrwydd ac urddas cleifion a'u teuluoedd.

Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion mewn sawl ffordd, a gwnaethant ddweud wrthym fod y staff wedi siarad â nhw am eu gofal a'u triniaeth mewn ffordd yr oeddent yn gallu ei deall.

Roedd yr amgylchedd ar y wardiau wedi'i gynnal yn dda, ac roeddent yn gyffredinol daclus.

Roedd trefniadau ar waith a oedd yn galluogi cleifion a'u teuluoedd i roi adborth am eu profiadau, a defnyddiwyd y rhain i ddysgu a gwella o brofiadau'r cleifion.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion ar Ward Llifon a'r ward esgor er mwyn ceisio eu barn am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o 11 o holiaduron. Cawsom sgysiau gyda nifer o gleifion hefyd yn ystod yr arolygiad.

Roedd yr adborth a ddarparwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol; gwnaethant raddio'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt yn ystod eu hamser yn yr ysbyty yn naw allan o ddeg, a chytunodd pob claf fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu'r gofal a'r driniaeth.

Cadw'n iach

Gwelsom fod taflenni gwybodaeth ar gyfer cleifion a'u gofalwyr ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni gwybodaeth ynghylch rhoi'r gorau i ysmygu, gwarchod menywod a babanod, beichiogrwydd a maetheg, bwyta'n iach, a magu plant yn ddiogel. Yn ogystal, roedd gwybodaeth ar gael am y gwasanaethau a ddarperir gan y bwrdd iechyd, megis gofal briwiau a gwiriadau gwybodaeth ôl-enedigol. Roedd hefyd bydwaig arweiniol ar gyfer iechyd meddwl ar gael pe bai angen cyngor a chymorth.

Gofal ag urddas

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau am staff yr ysbyty. Cytunodd pob claf fod staff bob amser yn gwrtais a'u bod yn gwrando arnyn nhw ac ar eu teuluoedd a'u ffrindiau. Dywedodd yr holl gleifion fod y staff yn eu hannerch gan ddefnyddio'r enw y maen nhw'n ei ffafrio.

Dywedodd partneriaid wrthym eu bod yn cael croeso a dangoswyd cegin ar gyfer cleifion/perthnasau i ni lle y gellid gwneud te a choffi.

Roedd gan yr uned dan arweiniad bydwagedd ystafelloedd unigol a chanddynt gyfleusterau en-suite, roedd ystafelloedd unigol ar y ward esgor heb gyfleusterau en-suite, ac roedd cymysgedd o ystafelloedd sengl a chilfannau bach yn Ward Llifon a chanddynt gyfleusterau en-suite a chyfleusterau ymolchi a rennir.

Gwnaethom drafod pwysigrwydd arferion "cyswllt croen wrth groen"¹ gyda chleifion a staff er gofal corfforol a seicolegol y rhiant a'r plentyn. Dywedwyd wrthym fod staff ar y ward yn hyrwyddo hyn fel arfer gorau.

Roedd cymorth sensitif yn cael ei gynnig ar adegau anodd, pan fyddai rhieni'n galaru am farwolaeth baban. Roedd gan y ward ystafell breifat gyda threfniadau cysgu ac amgylchedd gweddol gyfforddus lle y gallai rhieni dreulio cymaint o amser ag y bo'i angen gyda'u baban wrth iddynt alaru am eu colled. Gellid gwella'r ystafell hon drwy ei hailaddurno. Nid oedd bydwraig profedigaethau ar gael i gefnogi rhieni trwy adegau anodd o'r fath, er bod pob bydwraig yn cael ei hyfforddi i ymdrin ag amgylchiadau trasig, a byddai staff fel arfer yn cyfeirio cleifion i sefydliadau gwirfoddol. Roedd trafodaethau â rheolwr y ward yn dangos bod aelod o staff yn awyddus i ymgymryd â'r rôl hon.

Roedd y cleifion hynny yr oedd angen ymyrraeth lawfeddygol frys arnynt (toriad Cesaraidd) yn cael eu hanfon at y theatrau, a oedd mewn lleoliad cyfleus, yn agos at yr uned.

¹ Dangoswyd bod cyswllt croen wrth groen â babanod yn fuan ar ôl genedigaeth yn hybu dechrau bwydo o'r fron ac yn gwarchod rhag effeithiau negyddol gwahanu mam a baban (www.nice.org.uk).

Dywedwyd wrthym gan y rhan fwyaf o'r staff fod preifatrwydd ac urddas y cleifion bob amser yn cael eu cynnal, bod annibyniaeth cleifion bob amser yn cael ei hyrwyddo, a bod cleifion a/neu eu perthnasau'n rhan o'r penderfyniadau ynghylch eu gofal. Cadarnhawyd hyn yn ein sgysiau gyda chleifion a'u teuluoedd.

Dywedodd un claf wrthym am ddigwyddiad yn ystod y penwythnos cyn ein harolygiad lle nad oedd meddyg wedi cynnal parch ac urddas y claf. Aethpwyd i'r afael â hyn trwy anfon llythyr at y prif weithredwr a'r cyfarwyddwr meddygol. Derbyniodd AGIC ymateb boddhaol ar 12 Mawrth 2018.

Yr hyn y mae angen ei wella

Byddai o fudd i rai rhieni pe bai'r bwrdd iechyd yn gallu ystyried datblygu rôl ar gyfer bydwraig profedigaethau.

Byddai Ystafell yr Angylion (yr ystafell brofedigaethau) yn elwa ar gael ei hailaddurno.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod rhai taflenni gwybodaeth ar gael i gleifion eu darllen ar wal y ward a bod hefyd hysbysfwrdd yn y coridor. Fodd bynnag, byddai o fudd petai'r gwasanaeth yn penodi aelod penodol o staff a fyddai'n sicrhau bod yr holl daflenni gwybodaeth ar gael ar bob adeg.

Roedd uned asesu wedi'i staffio'n llawn, a gallai cleifion fynd yno i gael gwybodaeth, archwiliadau neu gyngor cyffredinol. Roedd yr uned ar gael 24 awr y dydd, drwy gydol yr wythnos. Roedd hyn yn enghraifft o arfer nodedig.

Cyfathrebu'n effeithiol

Cadarnhaodd mwyafrif y cleifion yn yr holiaduron eu bod yn cael cynnig yr opsiwn o gyfathrebu gyda'r staff yn yr iaith o'u dewis.

Dywedodd cleifion wrthym hefyd eu bod yn gallu siarad â staff trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, a rhoddwyd enghraifft i ni lle roedd staff wedi siarad Cymraeg â babi cyn gynted ag y cafodd ei eni, gan atgyfnerthu iaith ddewisol yr uned deulu.

Roedd system dolen sain ar gyfer y cleifion hynny a oedd ag anawsterau clywed, a dywedwyd wrthym fod staff yn defnyddio offer cyfathrebu ffotograffig ar gyfer cleifion a oedd yn siarad ieithoedd lleiafrifoedd ethnig neu a oedd â phroblemau cyfathrebu cymhleth.

Mae gan y ward esgor fwrdd cipolwg ar ddiogelwch cleifion nad yw ymwelwyr yn gallu ei weld.

Penodwyd bydwraig ymgynghorol, a oedd yn frwdfrydig a gwybodus, i wella'r gwaith o gyfathrebu rhwng timau staff ym maes bydwreigiaeth a maes obstetreg ledled y bwrdd iechyd, i wella gofal cymunedol, ac i hyrwyddo cyfranogiad cleifion. Mae'r rôl hon yn un weddol newydd. Fodd bynnag, mae wedi arwain at lawer o newidiadau ar draws y tri safle mamolaeth o fewn y bwrdd iechyd, gan ddatblygu gweithio mewn tîm gwell mewn ysbytai unigol, caniatáu i leisiau cleifion mamolaeth gael eu clywed, a chynyddu cysylltiad ag arolwg Cymru gyfan "Eich Babi, Eich Gofal".²

Gofal amserol

Dywedodd un claf yn yr holiaduron nad oedd ganddo fynediad at seinydd ar bob adeg; cytunodd y rhan fwyaf o'r cleifion fod staff yn dod atynt pan fyddant yn defnyddio'r seinydd.

Gwelsom fod y staff yn gwerthuso cyflwr y cleifion yn ystod y cyfnod esgor ac yn gwerthuso'r ôl-ofal gyda'r baban yn rheolaidd, gyda'r nod o sicrhau bod eu hanghenion gofal, dymuniadau a hoffterau unigol yn cael eu bodloni. Dywedodd cleifion wrthym fod cefnogaeth dda iawn i annog bwydo o'r fron, a oedd yn cael ei gynnig mewn ffordd ddigyffro, barchus a chalonogol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dywedodd cleifion a'u partneriaid wrthym eu bod yn cymryd rhan lawn yn yr holl benderfyniadau am enedigaeth ac ôl-ofal eu baban yn syth ar ôl geni. Gwelsom fod y ward esgor a'r uned dan arweiniad bydwagedd yn cynnig pyllau geni, a oedd yn enghraifft arall o arfer nodedig. Roedd hyn yn rhoi'r cyfle i gleifion a oedd â chymhlethdodau iechyd, nad oeddent yn gallu cael mynediad at yr uned

² Mae grŵp Bydwagedd Ymgynghorol Cymru yn cynnal arolwg er mwyn dadansoddi safbwyntiau menywod ar wasanaethau cynenedigol, a sut mae darpariaeth gyfredol gwasanaethau yn paratoi menywod at esgor a rhoi genedigaeth.

dan arweiniad bydwagedd bob tro, hefyd gael profiad o roi genedigaeth mewn dŵr pe baent yn dymuno.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd pob aelod o staff y siaradwyd ag ef yn gwybod bod adborth ar brofiadau'r cleifion (e.e. arolygon cleifion, blwch awgrymiadau ar y wardiau) yn cael ei gasglu yn ei gyfarwyddiaeth neu ei adran. Yn ogystal, dywedodd aelodau o staff eu bod yn derbyn diweddariadau rheolaidd ynglŷn â'r adborth ar brofiadau'r cleifion, a'u bod yn teimlo y'i defnyddid i wneud penderfyniadau gwybodus yn eu cyfarwyddiaeth neu eu hadran.

Roedd y bwrdd iechyd yn rhagweithiol o ran gwrando ar gleifion, ac roedd wedi sefydlu fforwm er mwyn i gleifion mamolaeth leisio eu barn. Roedd cynhadledd wedi'i threfnu ar gyfer mis Mawrth (a drefnwyd gan y fydwraig ymgynghorol) i roi coel ar safbwyntiau cleifion a llwyfan iddynt gael eu clywed. Roedd hyn yn enghraifft o arfer nodedig.

Esboniodd uwch-staff y byddai staff yn ceisio datrys problemau a godir gan gleifion neu eu cynrychiolwyr ar lefel y ward lle bynnag y bo'n bosibl. Pan nad oedd modd gwneud hyn, roeddent yn ymwybodol o'r broses uwchgyfeirio i'w dilyn, fel y gellid ystyried pryderon (cwynion) yn unol â threfniadau Gweithio i Wella.³ Fodd bynnag, roedd trafodaethau â chleifion yn dangos nad oeddent yn ymwybodol o'r broses Gweithio i Wella. Mae'n rhaid i'r wybodaeth hon fod ar gael i gleifion wrth iddynt gyrraedd.

Dywedodd staff wrthym eu bod wedi gweld camgymeriadau, achosion trwch blewyn neu ddigwyddiadau yn y mis diwethaf a allai fod wedi anafu staff neu gleifion, ac, yn gyffredinol, gwnaethant gytuno fod eu sefydliad yn eu hannog i adrodd ynghylch camgymeriadau, achosion trwch blewyn neu ddigwyddiadau a, phan fyddai'r rhain yn cael eu hadrodd, gwnaethant gytuno y byddai'r sefydliad yn cymryd camau i sicrhau na fyddent yn digwydd eto.

Er bod staff yn ansicr ynghylch a oedd y sefydliad yn trin staff sy'n rhan o gamgymeriad, achos trwch blewyn neu ddigwyddiad yn deg a chyda chymorth

³ *Gweithio i Wella* yw'r trefniadau ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) ynglŷn â gofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru.

digonol, gwnaethant deimlo y byddai'r sefydliad yn trin unrhyw gamgymeriad, achos trwch blewyn neu ddigwyddiad a gaiff ei adrodd yn gyfrinachol.

Fodd bynnag, hysbyswyd ni fod unrhyw gamgymeriad, achos trwch blewyn neu ddigwyddiad sy'n digwydd yn y sefydliad yn cael ei adrodd yn ôl a bod newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymateb i ddigwyddiadau o'r fath.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd archwilio pam fod staff yn teimlo na fyddent bob amser yn derbyn cymorth digonol pe baent yn rhan o ddigwyddiad.

Mae angen i reolwyr y wardiau sicrhau bod yr wybodaeth am drefniadau Gweithio i Wella ar gael i gleifion mewn modd amserol.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roeddem yn fodlon fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol gan aelodau o staff cymwys, effeithlon a gofalgarn a oedd yn frwdfrydig o ran eu gwaith. Roedd ymrwymiad i sicrhau bod y broses famolaeth mor naturiol â phosibl.

Gwelsom fod systemau wedi'u sefydlu gyda'r nod o amddiffyn cleifion rhag niwed y gellid ei osgoi, a'u cadw'n ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys enghreifftiau o ddriliau brys. Roedd yr holl fannau clinigol y gwnaethom ymweld â nhw yn lân ac yn rhydd rhag peryglon amlwg.

Roedd y staff wedi asesu anghenion y cleifion ac wedi datblygu cynlluniau ysgrifenedig i fodloni'r anghenion hyn. Roedd yr holl nodiadau cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn glir ac wedi'u dogfennu'n dda.

Roedd trefniadau ar waith i reoli meddyginiaethau mewn modd diogel.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau ar waith i gadw cleifion a staff yn ddiogel yn y manau y gwnaethom ymweld â nhw. Er enghraifft, roedd mynediad i'r ward trwy gyfrwng system intercom. Gwelsom staff yn gofyn yn gwrtais i ymwelwyr beth oedd y rheswm dros eu hymweliad cyn caniatáu iddynt fynd ymlaen. Ni wnaethom nodi unrhyw beryglon amlwg yn yr amgylchedd yn ystod ein harolygiad.

Roedd cymysgedd o ystafelloedd sengl a chilfannau bach a gwelsom fod preifatrwydd cleifion yn cael ei warchod trwy gau drysau neu drwy dynnu llenni preifatrwydd. Dywedodd staff wrthym fod anghenion unigol cleifion yn cael eu hasesu wrth eu derbyn. Pe bai'r broses hon yn nodi bod angen ciwbicl sengl arnynt, byddai trefniadau'n cael eu gwneud ar gyfer hyn lle bynnag y bo'n bosibl.

Gwelsom fod asesiadau risg perthnasol wedi'u cwblhau yn rhan o'r broses o dderbyn cleifion i'r ysbyty.

Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli a'r prosesau ar gyfer ymarfer diogel wrth ofalu am fabanod newyddenedigol yn yr ysbyty. Sicrhawyd ni fod systemau ar waith i leihau'r tebygolrwydd o roi genedigaeth i fabi y gallai fod angen y gwasanaeth arno trwy atgyfeiriad cynnar i Ysbyty Glan Clwyd. Fodd bynnag, roedd uned gofal arbennig i fabanod ar y safle, a gallai hon gefnogi babanod newyddenedigol hyd iddynt gael eu trosglwyddo i'r uned arbenigol ganolog yn Ysbyty Glan Clwyd. Fodd bynnag, mewn argyfwng, esboniodd staff fod pob bydwaig wedi'i hyfforddi i ofalu am fabanod newyddenedigol a bod hyfforddiant mewnol yn cael ei gwblhau yn rheolaidd fel rhan o hyfforddiant "sgiliau a driliau". Dywedwyd wrthym hefyd am y driliau brys ardderchog PROMPTS⁴ ac OMPS⁵ yr oedd staff yn eu cyflawni yn rheolaidd. Nid oedd gennym unrhyw bryderon o ran y gofal arbenigol a ddarperir yn yr unedau.

Gwnaethom drafod meysydd i'w gwella â staff, a dywedwyd wrthym mai un maes datblygu oedd gwella mynediad at sganio i gleifion a oedd â phryderon ynghylch twf y ffetws. Dywedwyd wrthym fod hyn yn fater sy'n ymwneud â'r adran radiograffeg, ac felly ei fod y tu hwnt i reolaeth yr uned famolaeth. Fodd bynnag, gwnaethom drafod hyn â'r cyfarwyddwr bydwreigiaeth a'r gyfarwyddiaeth menywod fel ffordd bosibl ymlaen ar gyfer y bwrdd iechyd.

Atal a rheoli heintiau

Roedd yr holl fannau clinigol y gwnaethom ymweld â nhw yn lân ac yn daclus iawn. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn holiaduron AGIC a chyfweliadau wyneb yn wyneb yn cadarnhau hyn hefyd. Roedd trefniadau ar waith ym mhob man i leihau croes-heintio.

⁴ Pecyn hyfforddiant amlbroffesiynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yw PROMPT (Hyfforddiant Amlbroffesiynol Ymarferol Obstetrig), a gaiff ei ddefnyddio ar gyfer argyfyngau obstetrig. Mae'n ymwneud â gwelliannau uniongyrchol mewn canlyniadau amenedigol, ac mae tystiolaeth ei fod yn gwella gwybodaeth, sgiliau clinigol a gweithio mewn tîm.

⁵ Hyfforddiant ar sgiliau ymarferol yw OMPS (Sgiliau Ymarferol Obstetrig i Fydwagedd), er mwyn i fydwagedd gynnal eu cymwysterau mewn meysydd penodol o fydwreigiaeth.

Ac eithrio un aelod domestig o staff, gwelsom fod gan staff fynediad at gyfarpar diogelu personol fel menig a ffedogau untro i leihau croes-heintio a'u bod yn defnyddio'r rhain. Gwnaethom siarad â'r aelod unigol o staff ar unwaith, gan ei holi ynghylch ei ddiffyg defnydd o ffedogau amddiffynnol, a chawsom ein siomi yn hwyrach ymlaen nad oedd hyn wedi derbyn sylw. Gwnaethom siarad ag uwch-staff ynglŷn â hyn, er mwyn sicrhau nad oedd yn ddiwylliant ymysg timau staff. Sicrhawyd ni nad dyma'r achos, ac yr eid i'r afael â'r digwyddiad gan arweinydd y tîm domestig.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael, ynghyd â phosteri a oedd yn dangos y weithdrefn golchi dwylo gywir i'w dilyn fel nodyn atgoffa gweledol i'r staff. Gwelsom hefyd safleoedd dadheintio dwylo wedi'u gosod ger mynedfeydd/allanfeydd ac o amgylch mannau clinigol er mwyn i staff ac ymwelwyr eu defnyddio.

Gwelsom hefyd fod gweithdrefnau ar waith ym mhob ardal i wirio a glanhau offer er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio ac i leihau'r risg o ledaenu heintiau.

Cadarnhaodd y staff y siaradom â nhw eu bod yn gallu cael mynediad at bolisïau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd ar gyfer rheoli heintiau yn y mannau clinigol lle roeddent yn gweithio. Cadarnhaodd staff hefyd eu bod wedi mynychu hyfforddiant ar reoli heintiau o fewn y 12 mis diwethaf. Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd wedi'u cwblhau mewn perthynas â rheoli heintiau yn yr ardaloedd clinigol y gwnaethom ymweld â nhw.

Roedd yr uned famolaeth hefyd yn cynnig sgrinio dewisol i gleifion sydd o fewn 32–34 wythnos o'u cyfnod beichiogrwydd am heintiau fel MRSA.⁶ Mae hyn yn enghraifft arall o arfer nodedig.

Yn ogystal, mae trefniadau wedi'u gwneud i unrhyw glaf mamolaeth sydd wedi'i ryddhau ac sydd â haint dderbyn adolygiad yn yr uned asesu. Caiff cleifion eu gweld gan dîm llawn, lle y caiff gwybodaeth a thriniaeth barhaus eu cynnig. Ar hyn o bryd, mae'r uned fel arfer yn derbyn tri chlaf y mis. Eto, mae hyn yn enghraifft o arfer nodedig.

⁶ Mae *Staphylococcus aureus* sydd yn ymwrthiol i fethisilin (MRSA) yn haint a all wrthsefyll triniaeth â sawl math cyffredin o wrthfotig.

Maeth a hydradu

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym fod ganddi amser i fwyta ei phrydau o fwyd ar ei chyflymder ei hun, a bod dŵr ar gael ar bob adeg.

Rheoli meddyginiaethau

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau a ddefnyddir yn yr ardaloedd clinigol y gwnaethom ymweld â nhw yn ddiogel.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o feddyginiaethau'n cael eu storio'n gywir ac yn ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd rhai meddyginiaethau yr oedd angen eu cadw mewn oergell wedi'u storio mewn oergell dan glo. Ar ben hyn, nid oedd tymheredd yr oergell yn cael ei wirio na'i fonitro bob dydd er mwyn sicrhau y cynhelid y tymheredd gorau posibl ar gyfer storio meddyginiaethau mewn oergell. Er bod drws yr ystafell feddyginiaeth i fod i gael ei gadw dan glo, nid oedd wedi'i gloi ar adeg yr arolygiad ac felly gellid cael mynediad at y cyffuriau yn yr oergell yn hawdd.

Gwnaethom edrych ar sampl o siartiau meddyginiaeth a gweld eu bod wedi'u cwblhau'n gywir. Gwelsom arfer diogel o ran rhoi meddyginiaethau.

Roedd cofnodion wedi cael eu cynnal o ran y maint o gyffuriau a reolir a gadwyd ac a roddwyd ym mhob ardal a arolygwyd.

Gwnaethom ofyn i weld y polisi rheoli meddyginiaethau ac, i ddechrau, nid oedd staff yn gallu dod o hyd i'r ddogfen ar y system fewnrwyd. Yna, dywedwyd wrthym fod y polisi a oedd ar gael yn hen bolisi. Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y polisïau cyfredol a'r hen bolisïau eu storio ar wahân, ac nad yw staff clinigol yn gallu cael gafael ar yr hen bolisïau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i reolwr y ward sicrhau y caiff yr oergell feddyginiaethau ei chloi, y caiff y drws ei gadw ar gau pan na fydd yr oergell yn cael ei defnyddio, ac y caiff tymheredd yr oergell ei gofnodi bob dydd.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd archwilio mynediad amserol at sganio i gleifion a chanddynt bryderon ynghylch twf y ffetws.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau mai mynediad at bolisïau cyfredol yn unig sydd gan staff clinigol.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Fel y disgrifiwyd yn gynharach, roedd mesurau diogelwch ar waith i amddiffyn cleifion ar y ward / yn yr unedau. Roedd sgysiau â staff yn dangos bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r prosesau diogelu y dylid eu defnyddio i amddiffyn llesiant a diogelwch cleifion a phlant a allai fod mewn perygl.

Roedd gan staff fynediad at arweinydd diogelu a oedd yn gallu darparu cyngor a chymorth ar faterion diogelu. Fodd bynnag, pan fyddai cleifion yn cael eu derbyn fel achos brys a bod posibilrwydd fod pryderon diogelu wedi cael eu nodi, dywedwyd wrthym na fyddai gan staff yr wybodaeth ar gael iddynt ar unwaith bob amser ac y byddai'n rhaid iddynt aros hyd nes bod nodiadau ysbyty'r claf yn cael eu hanfon at yr uned. Roedd hyn yn golygu y gallai'r claf a'r babi fod mewn perygl. Cyn diwedd yr arolygiad, roedd y ward esgor wedi datblygu system lle'r oedd yr wybodaeth hon ar gael ac yn cael ei storio mewn man diogel y gellid cael mynediad ato ar unrhyw adeg.

Caiff pob babi ei dagio a'i fonitro yn electronig yn yr ystafell esgor. Wrth gludo'r babi at Ward Llifon, caiff y tag ei atal am 15 munud, ond mae'r staff yn aros gyda'r babi ar bob adeg. Caiff driliau dynladrad eu cwblhau yn achlysurol i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r hyn sy'n ofynnol ganddynt. Mae drysau'r ward esgor yn cloi'n awtomatig os oes tag yn cael ei actifadu. Gwelsom ddigwyddiad lle y cafodd tag ei actifadu ar ddamwain, ac ymatebodd y staff mewn modd amserol, tawel a phriodol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod amrywiaeth o offer meddygol a nyrsio ar gael a oedd yn edrych yn lân ac i'w gweld wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Esboniodd y staff eu bod yn archwilio offer yn rheolaidd, a gwelsom lyfrau cofnodi ysgrifenedig i ategu'r broses a ddisgrifiwyd. Roedd polisiau ysgrifenedig ar waith a oedd yn rhoi arweiniad i staff ynghylch y gwaith o lanhau a dadheintio cotiau a chrudiau cynnal.

Ar wal pob ystafell esgor, gwelsom fod peiriant dadebru babanod newydd-anedig (Resuscitaire),⁷ a oedd yn gryno ac wedi'i leoli ar wahân. Roedd y peiriannau hyn yn fodern ac yn fain, ac felly nid oeddent yn amlwg i'r claf yn yr

⁷ Cyfarpar arbenigol yw'r Resuscitaire, ac mae ei angen ar gyfer argyfyngau a dadebru clinigol.

ystafell. Fodd bynnag, pan wnaethom edrych ar yr amserlenni glanhau a gwirio, nid oeddent yn cael eu gwirio bob dydd. Mae angen i'r cyfarpar hwn gael ei wirio a'i gofnodi bob dydd i sicrhau bod pob rhan ohono'n gweithredu'n iawn, rhag ofn y ceid argyfwng.

Gwelsom fod defnydd o ddodrefn unionsyth mewn rhai ystafelloedd geni. Roedd y rhain yn fodern ac yn cynnig opsiynau gwahanol i welyau i gleifion.

Gwnaethom wirio'r peiriant monitro gwaed a chanfuom fod y toddiant y tu hwnt i'w ddyddiad defnyddio. Pan wnaethom ddweud wrth staff, cafwyd gwared arno a chafodd toddiant newydd ei ddodi yn ei le.⁸

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen bod amserlenni glanhau a gwirio dyddiol ar waith ar gyfer y peiriannau Resuscitaire.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Canfuom sawl enghraifft o arferion arloesol a nodedig yn unedau mamolaeth Ysbyty Gwynedd. Esboniodd staff fod gofal cleifion wedi dod yn fwy seiliedig ar dystiolaeth ar ôl cyflwyno'r strwythur rheoli newydd a'r newidiadau mewn arweinyddiaeth, ac y gallai gofal gael ei addasu i ddiwallu anghenion pob claf unigol. Gwnaed hyn yn bosibl gyda dull rheoli agored a rhagweithiol.

Dywedodd y rhan fwyaf o staff eu bod yn teimlo eu bod yn gyffredinol fodlon ar ansawdd y gofal maent yn gallu ei roi i gleifion. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn eglur o ran y prosesau i'w dilyn pe baent yn pryderu am arferion clinigol anniogel. Yn ogystal, roeddent yn teimlo'n gyfforddus wrth leisio pryderon, ac yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon, unwaith y byddent yn cael eu hadrodd.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd gan staff fynediad ardderchog at gyfleoedd dysgu ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus. Roedd yr hyfforddiant amlldisgyblaeth efelychiadol yn ganmoladwy. Roedd y bwrdd iechyd yn ymrwymedig i sicrhau y caiff staff eu hyfforddi'n dda, gan ganiatáu pedwar diwrnod y flwyddyn ar gyfer hyfforddiant.

Rydym wedi nodi nifer o enghreifftiau o arferion nodedig trwy gydol yr adroddiad hwn.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y gwasanaethau mamolaeth yn cynnal ymgynghoriad ar newid oriau gwaith, er mwyn galluogi staff cymunedol a staff yr ysbyty i gydweithio mewn modd mwy effeithiol. Roedd yr holl aelodau staff yn ansicr o ran a fyddai hyn yn gam ymlaen. Fodd bynnag, roedd trafodaethau â'r uwch-staff a'r fydwraig ymgynghorol yn gwneud y manteision hirdymor ar gyfer staff a chleifion yn eglur i ni.

Dywedwyd wrthym fod "grwpiau gwrandio" wedi'u datblygu yn y gymuned, ac un o'r meysydd roeddent wedi nodi i'w gwella oedd cynnig rhagor o gymorth i famau newydd sy'n bwydo o'r fron pan fyddant yn cael eu hanfon adref o'r ysbyty am y tro cyntaf.

Yn ogystal, dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd yn hyrwyddo'r fenter "GAP a GROW", a'i bod wedi lleihau'r nifer o fabanod marwanedig o 50% ar draws y bwrdd iechyd, er gwaethaf y problemau â'r adran radiograffig mewn perthynas â chael mynediad at gyfleusterau sganio ffetysau.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Ar hyn o bryd, nid yw Ysbyty Gwynedd wedi'i sefydlu'n llawn ar system electronig y bwrdd iechyd. Bydd y newid arfaethedig yn y system yn cael ei gwblhau eleni (2018).

Cadw cofnodion

Ar y cyfan, canfuom fod cofnodion cleifion wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, eu bod yn glir, a'u bod yn cael eu cwblhau mewn modd amserol.

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion cleifion (dau ar Ward Llifon a thri ar y ward esgor). Gwelsom fod cofnodion ysgrifenedig rheolaidd wedi cael eu gwneud yn nodiadau'r cleifion, a oedd yn dangos dull amlldisgyblaethol effeithiol tuag at ofalu am gleifion. Gwelsom fod hepgoriadau mewn rhai mannau o'r Llwybr Clinigol Cymru Gyfan ar gyfer Esgor Naturiol ar y ward esgor; fodd bynnag, ni fyddai hyn wedi effeithio ar y safonau gofal. Ar Ward Llifon, er bod nodiadau rhai cleifion yn anodd eu dilyn oherwydd bod

gwybodaeth amrywiol wedi'i ffeilio yn eu plith, gwelsom eu bod yn gyffredinol o safon dda.

Dywedwyd wrthym fod siartiau rhoi meddyginiaethau a dogfennau nyrsio yn cael eu storio gyda'i gilydd yn yr uned dan arweiniad bydwagedd ac ar Ward Llifon. Fodd bynnag, ar y ward esgor, roedd y siartiau rhoi meddyginiaethau yn cael eu storio ar wahân. Byddai o fudd petai'r holl wardiau yn cynnal yr un ffyrdd o weithio.

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu storio'n ddiogel i atal mynediad i bobl heb ganiatâd pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Canfuom fod uwch-staff yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth dda a gweladwy ar y wardiau. Roedd systemau ar waith ar gyfer monitro effeithiolrwydd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir.

Roedd y staff i'w gweld yn broffesiynol ac yn wybodus, ac, ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd yn ymddangos bod nifer y staff o fewn y timau staff, a'u cymysgedd sgiliau, yn briodol i ddiwallu anghenion cleifion.

Cadarnhaodd staff fod ganddynt fynediad da iawn at gyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'w rolau.

Roedd yr ymatebion a gafwyd gan staff yn yr holiaduron yn awgrymu bod rhai aelodau o staff wedi profi gwahaniaethu personol yn y gweithle gan eu rheolwr, eu harweinydd tîm neu gydweithwyr eraill.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i staff sy'n gweithio ar y wardiau er mwyn canfod sut roedd eu hamodau gweithio ac er mwyn deall eu safbwyntiau ynghylch ansawdd y gwasanaethau mamolaeth a ddarperir i gleifion yn yr ysbyty.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 11 o holiaduron wedi'u cwblhau gan staff a oedd yn cyflawni amrywiaeth o rolau yn yr unedau. Roedd staff wedi bod yn gweithio yn yr ysbyty am gyfnodau a oedd yn amrywio o ychydig fisoedd i dros 15 mlynedd. Mae'r canfyddiadau hyn yn cyfrannu at gorff yr adran hon.

Canfu'r arolygwyr fod yr uwch-staff yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth dda a gweladwy ar y ward. Roedd dull rheoli rhagweithiol tuag at ddarparu gofal, gyda llinellau atebolrwydd a chyfrifoldeb amlwg. Cafwyd disgrifiadau o systemau ar waith ar gyfer monitro effeithiolrwydd a diogelwch y gwasanaethau

a ddarperir. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau lleol oedd yn ymwneud â gofal cleifion a staffio i fonitro cydymffurfiaeth â safonau a phrosesau'r bwrdd iechyd. Roedd archwiliadau wedi cael eu cwblhau hefyd mewn perthynas â phryderon (cwynion) a digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion er mwyn sicrhau bod staff yn derbyn cymorth i wella eu harfer ble bynnag y bo'n bosibl a gwella darpariaeth y gwasanaeth, fel sy'n briodol. Cadarnhaodd staff fod gan y bwrdd iechyd fynediad at yr wybodaeth gywir i fonitro ansawdd y gofal ar draws pob ymyrraeth glinigol, ac i gymryd camau gweithredu cyflym pan geir diffygion. Gwnaethant ddweud bod diwylliant o fod yn agored ac o ddysgu o fewn y bwrdd iechyd o hyd, a oedd yn cefnogi staff i nodi ac i ddatrys problemau.

Er bod staff yn teimlo nad oedd y tîm rheoli bob amser yn ymgynghori â hwy ynglŷn â newidiadau adrannol, gwnaethant gadarnhau eu bod bob amser yn gefnogol a bod y gweithwyr proffesiynol rheng flaen a oedd yn ymdrin â'r cleifion bob amser wedi'u grymuso i leisio barn a gweithredu pan fyddai problemau'n codi, yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwyster proffesiynol eu hunain.

Roedd yr holl aelodau o staff yn cytuno bod eu rheolwr llinell bob amser yn annog cydweithio fel tîm, a'i fod yn gefnogol pe bai ganddynt broblem bersonol. Gwnaethant gadarnhau eu bod bob amser yn derbyn adborth clir ar eu gwaith ac y gofynnid am eu barn cyn gwneud penderfyniadau a fyddai'n effeithio'n uniongyrchol ar eu gwaith. Roeddent yn teimlo y gellid wastad dibynnu ar reolwyr i'w helpu â thasgau anodd yn y gwaith. Dyma un o'r sylwadau a gafwyd:

"Newid diweddar o ran yr uwch-reolwyr; teimlo bod gen i fwy o gymorth, a dwi wedi gweld gwelliant mawr yn y cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a staff."

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod eu sefydliad yn gweithredu'n deg o ran datblygu eu gyrfa neu gynnig cyfleoedd am ddyrchafiad, ni waeth beth fo cefndir ethnig, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabled neu oedran unigolion.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Er bod staff wedi nodi yn yr holiaduron mai dim ond weithiau roeddent yn gallu bodloni'r holl alwadau gwrthgyferbyniol pan oeddent yn gweithio, ac mai dim ond weithiau roedd digon o staff yn y sefydliad i'w galluogi i gyflawni eu swyddi yn iawn, canfuom ar ddiwrnodau'r arolygiad fod staff i'w gweld yn broffesiynol ac yn wybodus, ac roedd yn ymddangos bod nifer y staff o fewn y tîm staff, a'u cymysgedd sgiliau, yn briodol i ddiwallu anghenion y cleifion.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cysylltu â'r bydwagedd cymunedol pe bai angen eu cymorth arnynt, ar yr amod nad oeddent yn brysur gyda'u cleifion eu hunain, ac awgrymodd uwch-staff eu bod wedi lleihau eu defnydd o staff asiantaeth o 55% i 8%, sydd i'w ganmol, er bod cyfradd salwch sy'n uwch na'r cyfartaledd o hyd yn y gyfarwyddiaeth bydwreigiaeth.

Esboniodd uwch-staff fod gan y bwrdd iechyd bolisi uwchgyfeirio, a fyddai'n cael ei roi ar waith pe bai diffyg staff a/neu angen mwy o ofal ar gleifion. Er enghraifft, roedd yr unedau yn cwblhau gwiriadau aciwtedd bob pedair awr i sicrhau bod digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion y cleifion.

Dywedodd yr holl aelodau o staff a gwblhaodd holiadur eu bod wedi mynychu hyfforddiant (gan gynnwys cyrsiau a addysgwyd a dysgu trwy hyfforddiant neu gysgodi yn ystod amser gwaith) yn y 12 mis diwethaf ar bynciau megis iechyd a diogelwch, diogelwch tân a rheoli heintiau. Nododd y mwyafrif ohonynt eu bod hefyd wedi mynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i arbenigedd gofal eu maes clinigol. Gwelsom wybodaeth yn cael ei harddangos yn y manau clinigol a oedd yn ymwneud ag amrywiaeth o sesiynau hyfforddi perthnasol a oedd ar gael i'r staff. Roeddem yn fodlon fod gan y tîm staff fynediad at gyfleoedd dysgu a chyfleoedd i gwblhau hyfforddiant ar ddriliau brys, a'u bod yn cael eu cefnogi'n ddigonol i wneud hynny.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Mae amrywiaeth o ddulliau ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad trylwyr o ward sengl: rydym yn cynnal arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o nifer o wardiau: rydym yn ymweld â nifer o wardiau ac adrannau o fewn un safle ysbyty i nodi problemau neu themâu mae'n bosibl eu bod yn berthnasol i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o nifer o ysbytai: rydym yn ymweld â nifer o ysbytai o fewn yr un bwrdd iechyd i asesu'r gwaith o lywodraethu a darparu gwasanaethau cyfan

Fel arfer, mae ein harolygiadau o ysbytai yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae ysbytai'n bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Canfuwyd bod y toddiant monitro glwcos yn y gwaed y tu hwnt i'r dyddiad terfyn a argymhellwyd gan y gwneuthurwr.	Roedd hyn yn golygu bod posibilrwydd nad oedd y cleifion hynny yr oedd angen monitro'r glwcos yn eu gwaed wedi derbyn y darlleniadau cywir.	We raised this concern with ward staff during the inspection and requested this was immediately resolved.	Cafodd staff y ward wared ar y toddiant yn y blwch monitro gwaed, gan ei ddisodli â photel o doddiant newydd.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Ysbyty: Ysbyty Gwynedd

Ward/adran: Yr uned dan arweiniad bydwragedd / y ward esgor / Ward Llifon

Dyddiad yr arolygiad: 30 a 31 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau sicrwydd ar unwaith y tro hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: **Ysbyty Gwynedd**

Ward/adran: Yr uned dan arweiniad bydwagedd / ward esgor / Ward Llifon

Dyddiad yr arolygiad: 30 a 31 Ionawr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Byddai o fudd i rai rhieni pe bai'r bwrdd iechyd yn gallu ystyried datblygu rôl ar gyfer bydwraig profedigaethau.	4.1 Gofal ag urddas	Mae'r swydd-ddisgrifiad ar gyfer rôl bydwraig profedigaethau ar gyfer cyfarwyddiaeth menywod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn y broses o gael ei ddatblygu.	Pennaeth Gwasanaethau Cleifion Mewnol a Chleifion Allanol Menywod	Gorffennaf 2018
Byddai Ystafell yr Angylion (yr ystafell brofedigaethau) yn elwa ar gael ei hailaddurno.		Y nod yw recriwtio unigolyn ar gyfer swydd bydwraig profedigaethau erbyn mis	Pennaeth Gwasanaethau Cleifion Mewnol a	Gorffennaf 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Gorffennaf 2018. - Cynhaliwyd cyfarfod â chynrychiolwyr lleol Cymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion ar 26 Mawrth 2018 i drafod y gwaith o ailaddurno Ystafell yr Angylion. - Mae cynlluniau i ailaddurno yn y tri mis nesaf mewn partneriaeth â grwpiau lleol y Gymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion.	Chleifion Allanol Menywod Pennaeth Gwasanaethau Cleifion Mewnol a Chleifion Allanol Menywod Pennaeth Gwasanaethau Cleifion Mewnol a Chleifion Allanol Menywod	Mawrth 2018 Cwblhawyd Gorffennaf 2018
Mae angen i'r bwrdd iechyd archwilio pam fod staff yn teimlo na fyddent bob amser yn derbyn cymorth digonol pe baent yn rhan o ddigwyddiad.	6.3 Gwrandao a dysgu o adborth	Bydd goruchwylwyr clinigol bydwagedd yn archwilio gyda staff pa lefelau o gymorth a fyddai'n fuddiol.	Goruchwyllydd clinigol bydwagedd Metronau cleifion mewnol	Yn dechrau ym mis Ebrill 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Bydd cyfarfodydd uned yn cael eu cynnal bob dau fis i roi cyfle i staff leisio unrhyw bryderon ac i geisio cymorth ar ôl digwyddiad, pe bai ei angen arnynt. Bydd dyddiadau cyfarfodydd yn cael eu cyflwyno 12 mis o flaen llaw.		Mawrth 2018 Cwblhawyd
		Mae polisi drws agored wedi'i fabwysiadu gan yr holl reolwyr yn yr uned, ac mae'r staff yn ymwybodol y gallant gael gafael ar y cymorth a'r arweiniad hwn ar unrhyw adeg. Mae hyn wedi'i atgyfnerthu ym mhob cyfarfod safle ym mis Mawrth 2018 ac yn ystod sesiynau galw heibio i staff.	Metronau cleifion mewnol	Mawrth 2018 Cwblhawyd
		Mae'r gwersi a ddysgir yn cael eu trosglwyddo i bob aelod o staff mewn modd amserol, yn dilyn pob digwyddiad.	Metronau cleifion mewnol	Mawrth 2018 Cwblhawyd
		Mae goruchwylydd clinigol bydwagedd bob amser ar gael i	Goruchwylydd clinigol bydwagedd	Cwblhawyd (arfer parhaus)

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae angen i reolwyr y wardiau sicrhau bod yr wybodaeth am drefniadau Gweithio i Wella ar gael i gleifion mewn modd amserol.		gefnogi staff mewn modd agored a chyfrinachol, gan gynnwys cymorth ac arweiniad fel rhan o'u rôl. Mae pob bydwraig yn derbyn pedair awr o gyswllt gorfodol y flwyddyn gyda goruchwylydd clinigol bydwagedd, sy'n cynnwys dwy awr o oruchwyliaeth grŵp a dwy awr o ddysgu lleol i lywio arferion.	Goruchwylydd clinigol bydwagedd	Arfer parhaus
		- Mae gwybodaeth am y trefniadau Gweithio i Wella ar gael i bob claf yn yr wybodaeth archebu a ddosberthir gan y fydwraig gymunedol yn ystod y cyfnod cynenedigol, er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn yr wybodaeth mewn modd amserol. - Mae taflenni Gweithio i Wella yn cael eu harddangos ac ar gael	Metronau cleifion mewnol ac allanol y gyfarwyddiaeth menywod Rheolwyr wardiau i gleifion mewnol sy'n fenywod	Ebrill 2018 Cwblhawyd Ebrill 2018 Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ym mhob ardal i gleifion mewnol.		
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd archwilio mynediad amserol at sganio i gleifion a chanddynt bryderon ynghylch twf y ffetws	2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch	- Mae trafodaethau gyda'r cydwasanaethau sy'n rheoli darpariaeth a chapasiti gwasanaethau sganiau uwchsain yn y bwrdd iechyd yn mynd rhagddynt, a byddant yn parhau i weithio ar ddatrysiadau. - Mae cyfarfod pellach wedi'i drefnu â phennaeth y cydwasanaethau ym mis Ebrill 2018. - Caiff capasiti gwasanaethau sganiau uwchsain ei nodi yng nghofrestr risg y gyfarwyddiaeth menywod fel risg agored, er mwyn i wasanaethau reoli a chefnogi galw a chapasiti. - Gosodwyd eicon ar gyfer cael mynediad at yr holl ddogfennau	Rheolwr cyffredinol Rheolwr cyffredinol Rheolwr cyffredinol Rheolwyr cleifion	Medi 2018 Ebrill 2018 l'w adolygu fis Mai 2018 Chwefror 2018 Cwblhawyd Chwefror
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau mai mynediad at bolisiau cyfredol yn unig sydd gan staff clinigol.				

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		rheoli ysgrifenedig ar fyrddau gwaith pob cyfrifiadur adrannol yn yr ardaloedd clinigol. • Cafodd <i>Sut i gael mynediad at bolisïau'r bwrdd iechyd</i> ei gynnwys ym mrieff diogelwch wardiau am gyfnod o bythefnos ym mis Chwefror 2018. • Mae goruchwylwyr clinigol bydwagedd hefyd yn atgoffa bydwagedd ynghylch sut i gael mynediad at bolisïau yn ystod eu diweddariadau goruchwyliaeth glinigol. • Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i sicrhau bod yr holl bolisïau dyblyg neu hen bolisïau yn cael eu dileu o'r fewnwyd.	mewnol Rheolwyr wardiau / arweinwyr sifftiau Goruchwylwyr clinigol bydwagedd Y tîm trawsnewid gofal	2018 Cwblhawyd Arfer parhaus Medi 2018
Mae'n rhaid i reolwr y ward sicrhau y caiff yr	2.6 Rheoli	• Mae gan bob oergell glo, a chaiff gwiriadau dyddiol eu cyflawni i	Rheolwyr wardiau	Chwefror 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
oergell feddyginiaethau ei chloi, y caiff y drws ei gadw ar gau pan na fydd yr oergell yn cael ei defnyddio, ac y caiff tymheredd yr oergell ei gofnodi bob dydd.	meddyginiaethau	sicrhau bod tymereddau'n cael eu cofnodi. - Mae system newydd wedi cael ei chyflwyno i sicrhau y caiff yr holl wiriadau dyddiol eu cynnwys mewn un ffeil, er mwyn hwyluso mynediad y staff atynt, ac y cânt eu llofnodi gan arweinydd y sifft ar y diwrnod hwnnw – yna, caiff hyn ei wirio er cydymffurfiaeth gan reolwyr y wardiau. - Mae'r gwaith o storio meddyginiaethau'n ddiogel a'r gwaith o wirio tymheredd yr oergell feddyginiaethau bob dydd wedi'u cynnwys yn rowndio bwriadol dyddiol y fetron ac yn y ffurflen sicrhau ansawdd (Fersiwn 11, Chwefror 2018). - Caiff y ffurflen sicrhau ansawdd ei chwblhau yn fisol gan y fetron,	Arweinwyr sifftiau / rheolwyr wardiau Metronau cleifion mewnol Metronau cleifion mewnol	Cwblhawyd Chwefror 2018 Cwblhawyd (Wedi'i fonitro'n fisol) Bob dydd o fis Chwefror 2018 ymlaen Cwblhawyd / Parhaus Yn fisol o fis Chwefror 2018 ymlaen Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		a chaiff cydymffurfiaeth ei hadrodd bob mis, ynghyd ag unrhyw themâu a thueddiadau, i Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Menywod.		
Mae angen bod amserlenni glanhau a gwirio dyddiol ar waith ar gyfer y peiriannau Resuscitaire.	2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	• Caiff gwiriadau eu cwblhau bob dydd. • Caiff y gwaith o wirio'r peiriannau Resuscitaire yn ddyddiol yn yr ystafelloedd esgor, yr unedau dan arweiniad bydwagedd a'r wardiau mamolaeth ei gynnwys yn rowndio bwriadol dyddiol y fetron ac yn y ffurflen sicrhau ansawdd (Fersiwn 11, Chwefror 2018). • Caiff y ffurflen sicrhau ansawdd ei chwblhau yn fisol gan y	Rheolwyr wardiau / arweinwyr sifftiau Metronau cleifion mewnol Metronau cleifion mewnol	Chwefror 2018 Cwblhawyd (Wedi'i fonitro'n fisol) Chwefror 2018 Cwblhawyd (arfer parhaus) Yn fisol o fis Chwefror 2018 Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		metronau, a chaiff y gydymffurfiaeth ei hadrodd bob mis, ynghyd ag unrhyw themâu a thueddiadau, i Grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Menywod.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw argymhellion ar gyfer gwella y tro hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):Fiona Gwynedd Giraud

Swydd: Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth a'r Gyfarwyddiaeth Menywod

Dyddiad:1 Ebrill 2018